**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ar 26 Gorffennaf 2021. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| B Apsley (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

K Finch (Trysorydd); H MacArthur (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); G Williams (Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a'r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Edwards (Archwilio Cymru); H Howard (Pennaeth Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G Owens | Dirprwy Swyddog Monitro |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25 IONAWR 2021

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2021 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 DATGANIAD O GYFRIFON A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21

5.1 Rhoddodd Matthew Edwards o Archwilio Cymru wybodaeth ar lafar am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cymeradwyo datganiad o gyfrifon 2020/21. Dywedodd fod swyddogion Archwilio Cymru yn dal i gael trafodaethau â rheolwyr GTAGC am nifer o faterion felly nid oeddent yn gallu darparu barn archwilio eto. Nodwyd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 Rhif 404 wedi ymestyn dyddiad cyhoeddi'r Cyfrifon i 30 Tachwedd. Cadarnhaodd Mr Edwards y bydd barn arfaethedig Archwilio Cymru ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ac y bydd yn barod i gael ei chymeradwyo'n derfynol yn y cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol ar 18 Hydref.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

6 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS GWIRIONEDDOL 2020/2021

6.1 Fe wnaeth Graham Williams o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i Aelodau am sefyllfa fenthyciadau'r Awdurdod a dangosyddion darbodus terfynol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

6.2 Mae benthyciadau'r Awdurdod wedi lleihau yn 2020/21 gan fod oedi wedi digwydd yn y rhaglen gyfalaf. Er bod archebion wedi cael eu gwneud am gerbydau newydd, nodwyd bod COVID-19 a Brexit wedi arwain at oedi yn y cyflenwad ac roedd y rhain wedi cyrraedd ar ôl diwedd y flwyddyn. Roedd gwariant a ohiriwyd yn ystod 2020/21 wedi cael ei ad-drefnu i ddigwydd yn 2021/22.

6.3 Cadarnhawyd bod angen i'r rhaglen gyfalaf fod yn gynaliadwy yn ariannol dros oes yr asedau, sef 18 mlynedd i beiriannau a 50 mlynedd i adeiladau, felly mae'n bwysig sefydlu diwydrwydd dyladwy er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei reoli'n briodol.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol 2020/2021.**

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2020/21

7.1 Aeth Keith Williams â'r Aelodau drwy'r adroddiad a'r atodiadau a oedd yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod 2020/21. Roedd hefyd yn darparu sicrwydd fod gan yr Awdurdod brosesau digonol ac effeithiol i reoli'i waith o gyflawni ei amcanion yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

7.2 Roedd Mr Williams eisiau cofnodi ei ddiolch i'r staff yn y gwahanol adrannau a oedd wedi cydweithio'n dda ag ef er gwaethaf amgylchiadau COVID-19. Nodwyd bod rhai archwiliadau yn gofyn am fynd i adrannau yn bersonol felly roedd yr archwiliad o'r Storfeydd wedi'i ohirio a chaiff ei gynnal yn ystod 2021/22.

7.3 Roedd yr Aelodau o'r farn fod yr adroddiad yn ffafriol ar y cyfan, yn enwedig oherwydd y materion a achoswyd gan COVID-19 felly **PENDERFYNWYD nodi cynnwys 'Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio a Chaffael' a'r 'farn' gyffredinol ynglŷn â pha mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth.**